WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

16 Mai 2008
www.wao.gov.uk

# Menter Twyll Genedlaethol Cymru 2006/2007: Crynodeb o Ganfyddiadau



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhaliwyd yn 2006/2007. Rwyf wedi ei baratoi a'i gyhoeddi o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol, ac rwyf wedi ei baratoi o dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 mewn perthynas â chyrff y GIG, a'r Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwyf wedi'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Gan gydweithio â chydweithwyr yn y Comisiwn Archwilio a chyrff y sector cyhoeddus a fu'n cymryd rhan, roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Katrina Febry, Gill Lewis, David Rees a Nathan Nash.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cendlaethol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth a gofynion gwerth gorau dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

Mae hefyd yn archwilio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn hollol annibynnol o'r Llywodraeth, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff eraill y mae'n archwilio a'n arolygu. Hefyd, er mwyn diogelu sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn benodol ar waith llywodraeth leol.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk neu ymwelwch â'r wefan www.wao.gov.uk
© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008.

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logo) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Dylid ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid rhoi teitl yr adroddiad hwn.

Lle nodwyd unrhyw ddeunydd sy'n hawlfraint trydydd parti, mae'n ofynnol arnoch i sicrhau caniatâd wrth berchennog yr hawlfraint cyn ei ailddefnyddio.

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 16 Mai 2008



# Cynnwys


Crynodeb 6

1 Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 wedi arwain at arbedion mawr o ran arian cyhoeddus ac mae wedi helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella ei drefniadau gwrth-dwyll 7

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn profi i fod yn ddull effeithiol iawn o leihau gwerth twyll budd-dal tai 9

Mae ymchwilio i barau taliadau pensiwn y Fenter Twyll Genedlaethol wedi dileu nifer sylweddol o achosion o daliadau'n cael eu gwneud i bensiynwyr sydd wedi marw 10

Nododd parau cyflogres y sector cyhoeddus nifer o achosion lle roedd cyflogeion wedi cyflawni twyll yn erbyn y sector cyhoeddus 11

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi cyflwyno modiwlau paru data newydd sy'n cefnogi cyrff y sector cyhoeddus i drechu twyll 11

Nododd a hwylusodd parau taliad credydwyr y Fenter Twyll Genedlaethol y broses o adennill gordaliadau yn llwyddiannus a chynorthwyodd awdurdodau i wella eu rheolaethau system 12

Mae ymarfer peilot gan y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ddiddymu dros 1,700 o ostyngiadau person sengl y dreth gyngor gan arbed swm rhagamcanol o £2.69 miliwn dros y tair blynedd nesaf 12

Rhoddodd modiwlau dewisol newydd fuddiannau newydd i gyfranogwyr, er i'r nifer fach a gymerodd ran yn y modiwlau hyn gyfyngu ar eu heffaith 13

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi sicrhau buddiannau anariannol sylweddol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru 14

Mae datblygiadau i ddiogelwch a chynllun y Fenter Twyll Genedlaethol wedi cyflawni buddiannau sylweddol yn 2006/2007 15

Mae rhai cyrff yn y sector cyhoeddus wedi gwella'r ffordd maent yn ymchwilio i barau ac maent wedi gweld y buddiannau, ond gallai eraill ddefnyddio'r offeryn yn llawnach 15

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i ddatblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol ymhellach yn y dyfodol** | **16** |
| | Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried sut i gwmpasu’r Fenter Twyll Genedlaethol i feysydd newydd | 16 |
| | Dymuna'r Archwilydd Cyffredinol ymestyn cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol i holl gyrff cyhoeddus Cymru | 16 |
| | Ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ceisio datblygu gwe-offeryn y Fenter Twyll Genedlaethol | 17 |
| | **Atodiadau** | **18** |
| | Atodiad 1 - Yr Ymarfer Menter Twyll Genedlaethol | 18 |

# Crynodeb

1 Mae cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £19 biliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn. Mae swm mawr o'r arian hwn yn cael ei wario gan awdurdodau lleol drwy roi budd-daliadau a thaliadau i unigolion i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol. Yn aml, mae'r taliadau a'r budd-daliadau yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd ar ffurflenni cais a gyflwynwyd gan aelodau'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys manylion o ran incwm, statws cyflogaeth a llety. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn rhoi gwybodaeth gywir, nid yw hynny'n wir bob amser. O ganlyniad i hyn, mae unigolion yn hawlio ac yn cael budd-daliadau nad oes ganddynt hawl i'w cael. Mae'n anodd i gyrff cyhoeddus ganfod lle y rhoddwyd gwybodaeth ffug, gan fod y wybodaeth yn cael ei chadw mewn systemau data ariannol ac anariannol dirifedi o fewn cyrff sector cyhoeddus a rhyngddynt.

2 Caiff cyrff y sector cyhoeddus eu targedu'n aml gan dwyllwyr. Yr her i'r sefydliadau hyn yw lleihau twyll a gwallau. Mae hyn yn gofyn i gyrff sector cyhoeddus gydweithio a rhannu gwybodaeth er mwyn eu galluogi i ganfod twyll.

3 Datblygwyd y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) gan y Comisiwn Archwilio yn 1996 i'r perwyl hwn. Caiff y Fenter ei chynnal bob dwy flynedd ac fe'i defnyddiwyd i nodi dros £11.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a bron £450 miliwn ledled y DU.

4 Y cwestiwn y mae'r adroddiad hwn yn ceisio ei ateb yw ‘a yw ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2006/2007 wedi bod yn ddull effeithiol o helpu i ganfod ac atal twyll yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac a yw wedi cyflwyno buddiannau i arian cyhoeddus yng Nghymru drwy ganfod ac atal twyll?’

5 Er i ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 fod yn llwyddiannus iawn, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn ymrwymedig i wella ac ymestyn y Fenter yn y dyfodol er mwyn galluogi awdurdodau i barhau i drechu twyll yn effeithiol.



# Rhan 1 - Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 wedi arwain at arbedion mawr o ran arian cyhoeddus ac mae wedi helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella ei drefniadau gwrth-dwyll

**1.1** Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ddull paru data a gynlluniwyd i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ledled y DU. Yng Nghymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am gynnal yr ymarfer. Ers 1996, mae'r Fenter wedi canfod dros £11.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a bron £450 miliwn ledled y DU. Ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007, fu'r ymarfer mwyaf llwyddiannus hyd yma, gan arwain at arbedion mawr i arian cyhoeddus a helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella eu trefniadau gwrth-dwyll. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol yn Atodiad 1.

**1.2** Cyfranogodd 70 o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007. Ymhlith y rhain roedd:

- awdurdodau lleol;
- awdurdodau'r heddlu;
- awdurdodau tân;
- ymddiriedolaethau'r GIG;
- byrddau iechyd lleol; a
- byrddau prawf.


**1.3** Cyfranogodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Fenter hefyd am y tro cyntaf yn 2006/2007 ar sail wirfoddol. Mae hyn yn golygu bod manylion cyflogres y rhan fwyaf o staff y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cael eu mewnbynnu i gronfa ddata'r Fenter at ddibenion paru.

**1.4** Rhoddwyd set o barau i bob cyfranogwr yn nodi'r gweithgaredd twyllodrus neu'r gordaliadau posibl a oedd yn berthnasol i'r sefydliad hwnnw. Trefnodd Swyddfa Archwilio Cymru ddigwyddiadau hyfforddi i roi canllawiau ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y Fenter. Yn ogystal, gweithiodd archwilwyr gydag awdurdodau i helpu i ddehongli a dadansoddi'r canlyniadau a rhoi arweiniad ar y gwaith o ymchwilio i achosion o dwyll posibl.

**1.5** Mae dadansoddiad o'r parau ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 yn dangos bod cyfanswm gwerth y twyll a'r gordaliadau a nodwyd wedi cynyddu 73 y cant o £2.59 miliwn yn 2004/2005 i £4.47 miliwn yn 2006/2007 fel y ddengys yn Ardangosyn 1.

**1.6** Cyflwynodd ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 baru newydd rhwng y derbynnydd gostyngiad person sengl y dreth gyngor a'r gofrestr etholwyr. Pwrpas y paru oedd canfod hawliadau amhriodol neu ffug ar gyfer gostyngiad person sengl y dreth gyngor. Hyd yn hyn, mae'r gwaith paru hwn wedi nodi arbedion o £2.69 miliwn o arian cyhoeddus mewn perthynas â gostyngiadau a ddyfarnwyd yn anghywir ac arbedion cysylltiedig yn y dyfodol gan un awdurdod yng Nghymru, Cyngor Sir Caerdydd, a gymerodd ran mewn ymarfer peilot cychwynnol. Ar hyn o bryd mae data ar gyfer nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn cael ei baru a rhagwelir y bydd hyn yn arwain at arbedion ychwanegol sylweddol o ran arian cyhoeddus.

**Arddangosyn 1: Arbedion a nodwyd gan y Fenter yng Nghymru £miliwn**




*Ffynhonnell: Y Comisiwn Archwilio.*

**1.7** Felly, er bod gwerth cyffredinol twyll a ganfuwyd wedi cynyddu, nid yw hyn yn golygu bod gwerth y twyll a gyflawnwyd yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynyddu; yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r cynnydd yn natur soffistigedig y Fenter fel ymarfer paru data, fel y dangosir gan y modiwl gostyngiad treth gyngor newydd, ac ymroddiad cyrff unigol i ymchwilio i waith paru'r Fenter.

**1.8** Os caiff yr ymarfer gostyngiad person sengl y dreth gyngor ei eithrio, yna cafwyd gostyngiad yng ngwerth cyffredinol gordaliadau. Mae hyn yn awgrymu i'r Fenter lwyddo yn y gwaith o nodi ac atal nifer o achosion hirdymor o dwyll, ac o ganlyniad achosion o dwyll gwerth uchel, yn arbennig, taliadau pensiwn a wnaed yn enw pobl a fu farw. Mae hefyd yn dangos bod gwaith rhagweithiol llawer o awdurdodau yng Nghymru wedi cael effaith sylweddol fel rhwystr.

**1.9** Fodd bynnag, mae nifer o wasanaethau cyhoeddus lle mae lle i ddefnyddio ymarferion paru data yn y dyfodol i ganfod ac atal twyll. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i archwilwyr yn ymrwymedig i ddatblygu modiwlau'r Fenter ymhellach mewn meysydd newydd.

**1.10** Yn ogystal â'r taliadau twyllodrus a gwallus a ganfuwyd, o ganlyniad i'r ymarfer cafwyd y canlynol hefyd:

- 26 o erlyniadau llwyddiannus; a
- 157 o achosion lle y cymerwyd camau disgyblu neu gamau eraill o ran twyll neu wall yn cynnwys cyflogeion y sector cyhoeddus.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau yn Arddangosyn 2.



**Arddangosyn 2: Crynodeb o ganlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 yng Nghymru**




## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn profi i fod yn ddull effeithiol iawn o leihau gwerth twyll budd-dal tai

**1.11** Caiff data hawlwyr budd-dal tai ei baru â setiau data eraill er mwyn nodi gordaliadau twyllodrus a gwallus. Mae'r setiau data a barwyd â data hawlwyr budd-dal tai yn cynnwys y gyflogres, data benthyciadau myfyrwyr a phensiynwyr a fu farw. Gall y parau hyn nodi enghreifftiau o:

- hawlwyr sydd wedi methu â datgan incwm a allai ddileu hawl i fudd-dal neu leihau'r budd-dal a delir;
- unigolion sy'n hawlio budd-daliadau, ond y mae eu cymhwyster ar gyfer benthyciad myfyrwyr yn golygu nad ydynt yn gymwys ar gyfer budd-daliadau tai; ac
- unigolion sy'n hawlio budd-dal tai gan un neu ragor o awdurdodau lleol ar yr un pryd.

**1.12** Mae canfod ac adennill twyll a gordaliadau budd-dal tai wedi creu arbedion sylweddol ar gyfer awdurdodau ers cyflwyno'r Fenter. Canfu ymarfer 2006/2007 werth £0.54 miliwn o arbedion yn gysylltiedig â budd-dal tai o gymharu ag £1.04 miliwn yn 2004/2005. Er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad o 48 y cant mewn arbedion ers yr ymarfer blaenorol; mae nifer yr achosion o ordaliadau budd-dal tai a ganfuwyd wedi cynyddu 15 y cant. Mae hyn yn awgrymu bod ymarferion blaenorol y Fenter wedi bod yn llwyddiannus o ran dileu nifer o ordaliadau budd-dal hirdymor.

**1.13** Mae dadansoddiad o'r gordaliadau yn datgelu bod 58 y cant ohonynt o ganlyniad i dwyll hawliwr, 32 y cant o ganlyniad i wall hawliwr a 10 y cant o ganlyniad i wall awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi adennill 79 y cant o'r gordaliadau, neu maent yn gweithio tuag at eu hadennill, ac atal gordaliadau pellach rhag digwydd.

1.14 Er mwyn hwyluso cydweithio rhwng asiantaethau i atal a chanfod twyll, rhoddwyd parau budd-dal tai Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 i'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Pensiwn er mwyn ymchwilio i achosion yn cynnwys materion yn ymwneud â chymhorthdal incwm a lwfans ceisio gwaith.

### Astudiaeth Achos 1

Nododd gwaith paru'r Fenter fod unigolyn a oedd yn cael budd-daliadau tai a threth gyngor yn cael pensiwn galwedigaethol gan awdurdod tân ac achub lleol. Ar ôl ymchwilio ymhellach, canfuwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan y pensiwn i'r Cyngor nac i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Dilynodd ymchwiliad ar y cyd a chafodd yr ymgeisydd ei gyfweld mewn perthynas â'r mater. Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymchwiliad, tynnwyd hawl yr ymgeisydd i lwfans ceisio gwaith, budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor yn ôl. Talwyd gordaliadau o dros £23,000 i'r unigolyn, ac o ganlyniad mae erlyniad yr unigolyn yn yr arfaeth.

1.15 Parwyd data budd-dal tai â'r gyflogres a chofnodion pensiwn gan gyrff sector cyhoeddus i nodi achosion lle y methodd hawlwyr â datgan incwm a fyddai naill ai'n dileu'r hawl i'r budd-dal neu'n lleihau'r budd-dal taladwy. Hyd yma mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi 157 o gyflogeion y sector cyhoeddus a 56 o bensiynwyr llywodraeth leol sydd naill ai'n hawlio budd-dal tai yn dwyllodrus neu'n cael eu gordalu o ran budd-dal tai.

1.16 Nid oes gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer benthyciad myfyrwyr yr hawl i gael budd-dal tai. Parwyd data benthyciadau myfyrwyr â chofnodion budd-daliad tai i nodi taliadau budd-dal tai twyllodrus a gwallus posibl. Hyd yma, nodwyd bod 41 o fyfyrwyr yn hawlio budd-dal tai yn dwyllodrus neu'n cael eu gordalu. Mae hyn yn cymharu â 23 o achosion ym Menter Twyll Genedlaethol 2004/2005. Mae nifer y parau a nodwyd eleni'n dangos pwysigrwydd y gwaith paru hwn, yn arbennig i'r awdurdodau hynny sydd â phoblogaeth fawr o fyfyrwyr.

### Astudiaeth Achos 2

Mae Cyngor Caerdydd wedi cael canlyniad sylweddol o barau budd-dal tai i ddata benthyciad myfyrwyr. Nodwyd nifer o achosion o dwyll ac mae'r rhain wedi arwain at bum erlyniad llwyddiannus hyd yma. Yn ogystal, nodwyd gordaliadau o £26,000, ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adennill yr arian hwn. Ym mhob achos, methodd yr hawlwyr â datgan eu statws fel myfyriwr a/neu'r benthyciadau a'r grantiau myfyrwyr yr oeddent yn eu cael. Ymhlith yr achosion roedd:

- Hawliwr a oedd wedi datgan ei statws fel myfyriwr ond nad oedd wedi datgan y benthyciadau na'r grantiau yr oedd yn eu cael. Aeth yr hawliwr i gyfweliad ffurfiol a datgelodd fod ei bartner yn fyfyriwr hefyd ac nad oedd ei grantiau na'i fenthyciadau wedi'u datgan. Cafodd yr hawliwr orchymyn adsefydlu cymunedol 60 awr ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau.
- Hawliwr budd-dal tai a ddatgelodd ei bod wedi rhoi'r gorau i'r Brifysgol. Fodd bynnag, cadarnhaodd ymholiadau gyda'r Brifysgol nad oedd hynny'n wir. O ganlyniad i fethu â datgan ei statws fel myfyriwr, cafodd fudd-daliadau tai a budd-daliadau'r dreth gyngor nad oedd ganddi'r hawl iddynt. Cafodd yr hawliwr ryddhad amodol 12 mis ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau.
- Dau hawliwr a oedd wedi methu â datgan eu statws fel myfyrwyr, ac o ganlyniad, roeddent yn cael budd-dal tai, ac mewn un achos, budd-dal y dreth gyngor, nad oedd ganddynt yr hawl iddynt. Cawsant ryddhad amodol o ddwy flynedd.

## Mae ymchwilio i barau taliadau pensiwn y Fenter Twyll Genedlaethol wedi dileu nifer sylweddol o achosion o daliadau'n cael eu gwneud i bensiynwyr sydd wedi marw

1.17 Yn ogystal â pharu data pensiwn â chofnodion budd-dal tai i nodi achosion o dwyll budd-dal tai, caiff data cynllun pensiwn ei baru hefyd â chofnodion unigolion sydd wedi marw a chofnodion y gyflogres er mwyn nodi achosion lle caiff pensiynau eu talu'n amhriodol. Cyfanswm y gordaliadau pensiwn a nodwyd ym Menter Twyll Genedlaethol



2006/2007 oedd £86,600 (£98,000 yn ymarfer 2004/2005).

1.18 Caiff data'r gyflogres pensiwn ei baru gyda chofnodion DWP o bobl sydd wedi marw i nodi achosion lle bo pensiynwr galwedigaethol wedi marw ond y telir y pensiwn o hyd. Roedd 21 o achosion lle y talwyd pensiynau o hyd ar ôl marwolaeth y pensiynwr, sef yr un nifer a nodwyd yn 2004/2005 (gostyngiad o 61 yn 2002/2003). Yn yr achosion a nodwyd yn 2006/2007, ymddengys y gwnaed gordaliadau dros gyfnod byr. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o'r twyll hirdymor, ac felly'r gordaliadau o werth uchel, bellach wedi'u dileu oherwydd y gwaith o ymchwilio i barau yn ymarferion blaenorol y Fenter.

1.19 Lle bo cyflogeion y sector cyhoeddus yn ymddeol yn gynnar ac yn cael pensiwn, os cânt eu hailgyflogi o fewn yr un sector gall hyn effeithio ar eu hawl i gael pensiwn. Mae'r Fenter yn paru cofnodion pensiynwyr y sector cyhoeddus â chofnodion cyflogres cyflogeion presennol y sector cyhoeddus. Nodwyd nifer fach o enghreifftiau lle yr oedd pensiynwyr y sector cyhoeddus wedi dychwelyd i weithio, ond wedi methu â datgan lefel eu hincwm i'r cynllun pensiwn. Roedd cyfanswm gwerth yr achosion hyn o dwyll/gordaliadau ychydig yn llai na £46,000.

## Nododd parau cyflogres y sector cyhoeddus nifer o achosion lle roedd cyflogeion wedi cyflawni twyll yn erbyn y sector cyhoeddus

1.20 Mae'r Fenter yn paru cofnodion y gyflogres i ganfod achosion o gyflogeion yn torri amodau gwasanaeth a chyfarwyddebau oriau gwaith. Gall y math hwn o baru nodi unigolion:

- sydd â dwy swydd amser llawn;
- sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor o un sefydliad tra'n gweithio i un arall;
- sydd â dwy swydd sydd â threfniadau gwaith sifft anghydnaws; ac
- sy'n gweithio i gyflogwr y sector cyhoeddus, er nad oes ganddynt hawl i fyw yn y DU neu nad oes ganddynt fisa ddilys yn caniatáu iddynt weithio yn y DU.

1.21 Nodwyd 25 achos o ordaliadau neu dwyll gan barau'r gyflogres ym Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007. Daeth y gordaliadau i ychydig dros £46,000. Er bod yr arbedion yn gymharol isel yn y maes hwn, ceir buddiannau clir i ymgymryd â'r gwaith paru hwn, er engraifft, yn niddordeb diogelwch dinasyddion a/neu ddiogelwch y cyhoedd.

**Astudiaeth Achos 3**

Nododd gwaith paru gan y Fenter fod gan gweithiwr proffesiynol iechyd ddwy swydd amser llawn, y naill yng Nghymru a'r llall yn Lloegr. Dangosodd ymchwiliadau pellach fod gan yr unigolyn ddau gytundeb amser llawn ar yr un pryd, a bod ganddo gofnod absenoldeb oherwydd salwch gwael.
Dangosodd dadansoddiad fod yr unigolyn yn hawlio absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb arbennig o un corff iechyd tra'n gweithio yn y llall.
Ymchwiliwyd i'r mater gan arbenigwyr gwrth-dwyll o Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG (Cymru) a'r corff iechyd yng Nghymru. Cyfwelwyd â'r unigolyn o dan rybudd ac mae erlyniad troseddol yn yr arfaeth. Cafodd yr unigolyn ei ddiswyddo o un swydd ac ymddiswyddodd o'r llall.

## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi cyflwyno modiwlau paru data newydd sy'n cefnogi cyrff y sector cyhoeddus i drechu twyll

1.22 Cyflwynodd Menter Twyll Genedlaethol 2006/2007 nifer o fodiwlau newydd. Rhoddodd y modiwlau newydd gyfle i'r sefydliadau a fu'n cymryd rhan gynyddu

buddiannau'r Fenter o ran nodi twyll ym meysydd traddodiadol y Fenter, fel budd-dal tai, ond roeddent hefyd yn gyfle i nodi twyll mewn meysydd newydd. O ganlyniad, estynnnwyd argaeledd y modiwlau hyn i bob awdurdod yn ymarfer 2006/2007. Mae a wnelo'r modiwlau newydd â:

- thaliadau credydwyr;
- gostyngiadau person sengl y dreth gyngor;
- bathodynnau glas;
- hawliadau yswiriant; a
- thaliadau i gartrefi gofal preswyl preifat a gofal parhaus.

**1.23** Disgwyliwyd i bob awdurdod perthnasol gymryd rhan yn y modiwlau credydwyr a'r dreth gyngor. Roedd cyfranogiad yn y modiwlau newydd eraill yn ddewisol yn 2006/2007, ond rhagwelir y bydd cyfranogiad yn orfodol mewn ymarferion yn y dyfodol.

**Nododd a hwylusodd parau taliad credydwyr y Fenter Twyll Genedlaethol y broses o adennill gordaliadau yn llwyddiannus a chynorthwyodd awdurdodau i wella eu rheolaethau system**

**1.24** Parodd modiwl newydd ddata statws credydwyr a data hanesyddol. Diben modiwl credydwyr yw nodi ystod o risgiau, fel achosion o anfonebu dyblyg a gwendidau yn y systemau sy'n ei gwneud yn haws gwneud gordaliadau twyllodrus neu wallus, er enghraifft lle y talwyd swm TAW anghywir ar anfoneb.

**1.25** Roedd modiwl y Fenter ar daliadau credydwr yn newydd yn 2006/2007 a nododd nifer o ordaliadau ledled Cymru. Mae awdurdodau wedi defnyddio'r parau i nodi gwendidau mewn systemau ac, o ganlyniad, maent wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel rhesymoli nifer y cyfrifon credydwyr lle bo cyfrifon dyblyg yn bodoli ar gyfer un credydwr. Yn ogystal, mae awdurdodau'n adennill gwerth £33,000 o ordaliadau ar hyn o bryd o ganlyniad i hyn. Cyfyngwyd ar effeithiolrwydd y modiwl yn 2006/2007 gan broblemau ansawdd data, yn ogystal â materion yn ymwneud â gofynion manylebau data. Rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn Archwilio i ddatblygu a gwella'r maes hwn o'r Fenter.

**1.26** Caiff canllawiau diwygiedig eu rhoi i awdurdodau yn ymarfer 2008/2009 yn nodi rhagor o fanylion am y gofynion codi data a gweithdrefnau glanhau data mwy llym. Gyda gwell ansawdd data rhagwelwn y gellir gwneud cynnydd pellach wrth nodi gordaliadau a rhoi data rhyng-gymharol a nodi twyll a llygredd ym maes caffael.

**Mae ymarfer peilot gan y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ddiddymu dros 1,700 o ostyngiadau person sengl y dreth gyngor gan arbed swm rhagamcanol o £2.69 miliwn dros y tair blynedd nesaf**

**1.27** Mae talwyr y dreth gyngor yn gymwys ar gyfer gostyngiad person sengl y dreth gyngor lle mai hwy yw'r unig breswyliwr mewn cartref sy'n 18 oed neu'n hŷn, neu lle bo'r preswylwyr eraill yn perthyn i gategorïau wedi'u heithrio fel myfyrwyr a hyfforddeion. Mae'r gostyngiad yn gostwng cost y dreth gyngor sy'n daladwy ar yr eiddo 25 y cant.

**1.28** Ar gais un o fwrdeistrefi Llundain, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio ymarfer peilot ddwy flynedd yn ôl i nodi cartrefi a oedd yn hawlio Gostyngiad lle nad oedd unrhyw hawl. Roedd yr ymarfer yn llwyddiant mawr ac, o ganlyniad, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio ymarfer peilot pellach yn 2007 yn cynnwys mwy o awdurdodau ledled y DU, gan gynnwys Cyngor Caerdydd. Parodd yr ymarfer peilot gofnodion y dreth gyngor â'r gofrestr etholwyr i nodi cartrefi lle y câi'r Gostyngiad ei hawlio lle nad oedd hawl iddo.

**1.29** Yn sgîl lefel uchel y gordaliadau a nodwyd yn yr ymarferion peilot a gynhaliwyd nododd yr



Archwilydd Cyffredinol ei fwriad y dylai'r Gostyngiad gael ei fabwysiadu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wedi ein siomi bod nifer o awdurdodau wedi nodi eu bod yn anfodlon darparu'r data angenrheidiol ar gyfer yr ymarfer ar hyn o bryd, gan ddyfynnu pryderon o ran cyfreithlondeb. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi darparu dwy farn gyfreithiol i gefnogi cyfreithlondeb yr ymarfer paru.

**1.30** Fodd bynnag, rydym yn falch bod nifer o awdurdodau yng Nghymru wedi darparu'r wybodaeth, gan ddangos eu hymrwymiad i drechu twyll. Mae'r data ar gyfer yr awdurdodau hyn wedi'i baru a'i ddychwelyd i'r awdurdodau i'w adolygu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y cyflwynir y data sy'n weddill.

### Astudiaeth Achos 4

Cymerodd Cyngor Caerdydd ran yn ymarfer peilot y Fenter ar ostyngiad person sengl y dreth gyngor a chafwyd 3,913 o barau wth gymharu cofnodion y dreth gyngor â'r gofrestr etholwyr.

Nododd y gwaith paru'r cartrefi hynny lle yr oedd y preswylydd yn hawlio gostyngiad person sengl, yn ôl pob golwg, ond bod y gofrestr etholwyr yn nodi bod mwy nag un person 18 oed neu'n hŷn yn y cartref.

Nododd gwaith didoli cychwynnol 2,658 o achosion yr oedd angen eu hasesu ymhellach. Anfonwyd llythyrau at y sawl a oedd yn hawlio gostyngiad person sengl yn gofyn am eglurhad o ran a oedd ganddo hawl i'r gostyngiad person sengl o hyd ac er mwyn canfod dyddiad dod i rym unrhyw newid a allai effeithio ar ei hawliad.

Cymerwyd camau dilynol yn dibynnu ar yr ymateb a chafodd 1,758 o geisiadau eu diddymu neu eu tynnu'n ôl o ganlyniad. Hyd yn hyn, mae'r gwaith paru wedi nodi arbedion o £2.69 miliwn o arian cyhoeddus mewn perthynas â gostyngiadau a ddyfarnwyd yn anghywir ac arbedion cysylltiedig yn y dyfodol.

Lle y nododd y ceisydd fod ganddo hawl i'r gostyngiad person sengl o hyd, profwyd yr holl ffeithiau'n gysylltiedig â'i hawl i'r graddau y bo hynny'n bosibl a cheisiwyd tystiolaeth briodol cyn parhau i'r cam ymchwilio.

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno rhaglen arfaethedig o adolygiadau ar gyfer gostyngiadau person sengl i ategu'r gwaith a wnaed fel rhan o'r Fenter.

### Rhoddodd modiwlau dewisol newydd fuddiannau newydd i gyfranogwyr, er i'r nifer fach a gymerodd ran yn y modiwlau hyn gyfyngu ar eu heffaith

**1.31** Parwyd cofnodion deiliaid trwyddedau â data budd-dal tai i nodi unigolion a oedd yn hawlio budd-daliadau nad oeddent wedi datgan eu henillion. Nodwyd cyfanswm o dros £32,000 o arbedion budd-dal tai o ganlyniad i enillion heb eu datgan deiliaid trwyddedau yng Nghymru. Mae'r gordalaiadau hyn yn gysylltiedig â'r ddau awdurdod a ddewisodd gymryd rhan yn y modiwl hwn. Gellid nodi arbedion sylweddol ledled Cymru mewn ymarferion yn y dyfodol, a dyna pam y rhagwelir y caiff y gwaith paru ei gynnal ar gyfer pob awdurdod yn 2008/2009. Yn ogystal gallai gwaith paru rhwng deiliaid trwyddedau a cheiswyr lloches aflwyddiannus a fisâu'r DU sydd wedi methu nodi pobl sy'n gweithio yn y DU heb fod ganddynt hawl i wneud hynny.

**1.32** Parwyd cofnodion bathodynnau glas â chofnodion marwolaethau DWP i nodi bathodynnau glas a allai fod yn cael eu defnyddio o hyd ar ôl marwolaeth perchennog cofrestredig y bathodyn. Gellir defnyddio bathodynnau glas ar ôl marwolaeth y perchennog cofrestredig osgoi costau parcio ac ar gyfer hwylustra parcio. O ganlyniad i'r twyll hwn mae'r awdurdod yn colli refeniw parcio, a chaiff lleoedd parcio eu gwrthod i bobl sy'n ddeiliaid bathodyn glas dilys.

### Astudiaeth Achos 5

O ganlyniad i ymchwiliad i barau'r Fenter o fathodyn glas, nododd Cyngor Sir y Fflint nifer o fathodynnau glas a allai fod yn cael eu defnyddio ar ôl marwolaeth y perchennog cofrestredig. O ganlyniad diddymwyd dros gant o fathodynnau a chyflwynodd y Cyngor reolaethau system newydd i leihau'r risg o fathodynnau glas yn cael eu defnyddio ar ôl marwolaeth y perchennog cofrestredig.

**1.33** Dim ond dau awdurdod yng Nghymru a gymerodd ran yn y modiwl bathodyn glas. Gallai awdurdodau yng Nghymru wireddu nifer o fuddiannau gan ddefnyddio'r data i nodi buddiannau ac arbedion ychwanegol.

- Rhoddodd un awdurdod yn y DU y data ar ddeiliaid bathodynnau sydd wedi marw i'w weinyddwyr parcio i'w galluogi i nodi'r bathodynnau glas a gâi eu defnyddio'n anghyfreithlon.

- Mae awdurdodau yn y DU wedi trosglwyddo gwybodaeth i adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn wedi arwain at ddychwelyd cymhorthion symudedd atynt er mwyn sicrhau eu bod ar gael i eraill.

Felly, rhagwelir y caiff y modiwl hwn ei gynnal gan bob awdurdod lleol yn 2008/2009.

**1.34** Parwyd manylion hawliadau iawndal yswiriant i nodi hawlwyr cyfresol, o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt. Gellir paru'r data â hawlwyr budd-dal tai hefyd i nodi unigolion sydd wedi cael taliadau mawr ond heb eu datgan. Gan mai dim ond dau awdurdod yng Nghymru a gymerodd ran yn y modiwl hwn, ni ellid paru rhwng awdurdodau ac felly dim ond nifer fach iawn o barau a nodwyd. Rhagwelir y gall y gwaith paru hwn nodi arbedion mawr os gaiff y modiwl ei gyflwyno ar draws pob awdurdod.

**1.35** Parwyd cofnodion unigolion sydd wedi marw'r Adran Gwaith a Phensiynau ag unigolion mewn cartrefi gofal preswyl preifat er mwyn nodi achosion lle y câi taliadau eu talu i'r cartref gofal ar ôl marwolaeth preswyliwr. Dau awdurdod a gymerodd ran yn y modiwl hwn. Rydym yn falch na nodwyd unrhyw enghreifftiau o ordaliadau ac mae wedi rhoi sicrwydd i gyfranogwyr yn y modiwl hwn o ran y rheolaethau system sydd ar waith. Yn ein barn ni, mae gwerth sylweddol i'r modiwl hwn gan fod taliadau a wneir i gartrefi gofal yn costio cannoedd o bunnoedd fesul preswyliwr i awdurdodau lleol bob wythnos. Mae hyn yn golygu lle y nodir gordaliadau mae posibilrwydd y gallai'r gwerth fod yn sylweddol. O ganlyniad, rhagwelir y caiff y gwaith paru hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru yn yr ymarfer nesaf.

## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi sicrhau buddiannau anariannol sylweddol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru

**1.36** Prif ffocws y Fenter yw nodi gordaliadau ac arbedion ariannol; fodd bynnag, mae hefyd yn cynnig nifer fawr o fuddiannau anariannol. Drwy ddefnyddio'r Fenter yn effeithiol, gall cyrff cyhoeddus gryfhau eu trefniadau o ran gwrth-dwyll a llygredd. Gall y Fenter helpu cyfranogwyr i nodi gwendidau mewn systemau hefyd, fel talu anfonebau ddwywaith. Mae cydnabod gwendid yn galluogi sefydliadau i wella eu systemau er mwyn helpu i atal y problemau rhag codi eto. Mae'r Fenter yn rhoi sicrwydd i gyfranogwyr hefyd bod systemau'n gweithio er mwyn atal twyll a llygredd.

**1.37** Mae'r Fenter yn galluogi gweithio mewn partneriaeth hefyd rhwng y cyrff cyhoeddus gan fod angen iddynt rannu data a gwybodaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau. Nodi gordaliad posibl drwy'r Fenter yw'r cam cyntaf yn y broses o nodi twyll a gordaliadau eraill gwirioneddol. Gall nodi twyll arwain at awdurdod yn canfod achosion cysylltiedig eraill o dwyll a buddiannau anariannol eraill.

**1.38** Lle y mae gan unigolyn fwy nag un swydd, gall gwaith paru'r gyflogres sy'n amlygu achosion lle mae cyflogeion yn gweithio patrymau sifft anghydnaws amlygu pryderon iechyd a diogelwch yn ogystal â thwyll. Mae parau a gynhyrchir gan y Fenter sy'n nodi twyll a gyflawnir gan gyflogeion y sector cyhoeddus o fudd i'r sefydliad lle y cyflawnir y twyll, ond gallant hefyd roi gwybodaeth am gymeriad y cyflogai i'w gyflogwr a gallent amlygu risgiau eraill i'r cyflogwr.



## Mae datblygiadau i ddiogelwch a chynllun y Fenter Twyll Genedlaethol wedi cyflawni buddiannau sylweddol yn 2006/2007

**1.39** Mewn ymarferion blaenorol, rhoddwyd canlyniadau i awdurdodau ar CD-ROM. Fodd bynnag, cyflwynodd y Fenter Twyll Genedlaethol 2006/2007 ddull newydd o roi canlyniadau i awdurdodau. Cyflwynwyd parau pob cyfranogwr, gan amlygu twyll a gordaliadau posibl i ymchwilio iddynt, ar we-offeryn diogel newydd. Mae'r gwe-offeryn yn ddatblygiad pwysig ar gyfer y Fenter, gan roi gwybodaeth reoli amser real a rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio, a oedd yn galluogi archwilwyr i gofnodi eu canfyddiadau ar-lein.

**1.40** Un o fanteision eraill yr offeryn yw gwella trefniadau diogelwch y Fenter. Darperir y gwe-offeryn i gyfranogwyr drwy gysylltiad diogel â'r rhyngrwyd a rheolir mynediad i ganlyniadau drwy gyfrinair. Yn ogystal, mae'r offeryn wedi darparu llwybr archwilio i gyfranogwyr fonitro mynediad i ganlyniadau.

**1.41** Ym mis Awst 2007, datblygwyd yr offeryn ymhellach i gynnwys dull newydd ar gyfer cyflwyno data i'r Comisiwn Archwilio. Dim ond drwy lwytho'r data i fyny gan ddefnyddio'r modiwl trosglwyddo electronig diogel yn y gwe-offeryn y gall cyfranogwyr y Fenter gyflwyno eu data bellach. Caiff data ei amgryptio'n awtomatig wrth gael ei lwytho i fyny. Mae hyn wedi dileu’r angen am unrhyw drosglwydd ffisegol o setiau data. Adolygwyd trefniadau diogelwch ym mis Ionawr 2008 a daethpwyd i'r casgliad bod mesurau'n cydymffurfio â safon diogelwch gwybodaeth ISO 27001.

## Mae rhai cyrff yn y sector cyhoeddus wedi gwella'r ffordd maent yn ymchwilio i barau ac maent wedi gweld y buddiannau, ond gallai eraill ddefnyddio'r offeryn yn llawnach

**1.42** Yn adroddiad cenedlaethol 2004/2005, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd pob cyfranogwr yn llwyddo o ran ei ddull o ymchwilio i barau data'r Fenter.

**1.43** Yn gyffredinol, mae ymarfer 2006/2007 wedi gweld gwelliant yn y maes hwn. Mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi datblygu dulliau effeithiol o adolygu'r parau. Yn benodol, rydym yn falch o nodi bod byrddau iechyd lleol yn gyffredinol wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran ymchwilio i barau'r Fenter nag y buont mewn ymarferion blaenorol.

**1.44** Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus a gymerodd ran wedi ymchwilio i barau'n rhagweithiol ac yn effeithiol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn o hyd bod ymrwymiad cyrff unigol i ymchwilio i barau yn amrywio. Yn yr un modd, mae ymrwymiad o fewn awdurdodau i ymchwilio i'r mathau gwahanol o barau yn amrywio.

**1.45** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r Fenter. Yn benodol, bydd archwilwyr yn parhau i roi help o ran dehongli a dadansoddi'r canlyniadau a rhoi hyfforddiant rhyngweithiol ar y defnydd o dechnoleg y Fenter.

# Rhan 2 - Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i ddatblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol ymhellach yn y dyfodol

## Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried sut i gwmpasu’r Fenter Twyll Genedlaethol i feysydd newydd

**2.1** Mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Archwilio, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried meysydd newydd y gellir ymestyn y Fenter iddynt yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n ystyried a ddylai'r modiwlau a oedd yn ddewisol yn 2006/2007 gael eu mabwysiadu gan bob corff cyhoeddus perthnasol yn y dyfodol.

**2.2** Mae Deddf Troseddu Difrifol 2007 yn hwyluso hyn ac yn benodol mae'n golygu y gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data at ddibenion cynorthwyo'r broses o atal a chanfod twyll yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru. Mae'r darpariaethau yn sicrhau y gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff y GIG ddarparu data at ddibenion gwaith ymarferion o'r fath. Mae hefyd yn galluogi sefydliadau, gan gynnwys y sector preifat, a chyrff llywodraeth ganolog yn y DU i gymryd rhan ar sail wirfoddol mewn ymarferion paru data. Bydd darpariaethau deddfwriaethol newydd yn sicrhau bod nifer yr eitemau o ddata a gaiff eu paru yn y Fenter yn cynyddu'n sylweddol, a bydd yn galluogi twyllwyr sy'n targedu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gael eu canfod ar yr un pryd.

**2.3** Yn yr hirdymor, bydd y pwerau newydd yn galluogi meysydd paru data newydd i gael eu datblygu. Gall y rhain gynnwys paru:

- unigolion sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr troseddwyr rhyw gyda chyflogeion awdurdod lleol sy'n gweithio mewn ysgolion;
- y sawl sy'n ffoi rhag cyfiawnder gyda data'r gyflogres a budd-daliadau er mwyn canfod eu lleoliad presennol; ac
- unigolion ag ôl-ddyledion mawr i gyrff sector cyhoeddus gyda systemau data eraill er mwyn hwyluso'r gwaith o adennill yr arian sy'n ddyledus.

## Dymuna'r Archwilydd Cyffredinol ymestyn cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol i holl gyrff cyhoeddus Cymru

**2.4** Mae'n ofynnol i holl awdurdodau unedol a chyrff y GIG yng Nghymru gymryd rhan yn y Fenter, ac mae Archwilydd Cyffredinol am annog pob sefydliad sector cyhoeddus arall yng Nghymru i gymryd rhan yn y Fenter ar sail wirfoddol. Bydd cynnydd yn nifer y cyfranogwyr yn golygu y bydd nifer yr eitemau o ddata sydd ar gael at ddibenion paru yn cynyddu'n sylweddol, ac felly, bydd y potensial ar gyfer nodi gordaliadau ac arbedion yn fwy.



## Ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ceisio datblygu gwe-offeryn y Fenter Twyll Genedlaethol

**2.5** Croesawyd y gwelliannau i'r gwe-offeryn gan y cyfranogwyr ac mae llawer o ddefnyddwyr wedi rhoi adborth defnyddiol o ran sut y gallai gwelliannau pellach wella'r gwe-offeryn. Caiff llawer ohonynt eu hymgorffori yn yr ymarfer nesaf.

**2.6** Caiff meddalwedd hyfforddi rhyngweithiol newydd ei chynnwys yn y broses o ddiweddaru'r gwe-offeryn yn 2008/2009. Bydd hyn yn rhoi arddangosiadau ac ymarferion tiwtorial ar feysydd cyfrifoldeb penodol. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i gael y canllawiau penodol sydd eu hangen arnynt ar amser sy'n gyfleus i'w hanghenion. O ganlyniad i hyn, ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal y seminarau hyfforddi a gynhaliwyd ar gyfer cyfranogwyr mewn blynyddoedd blaenorol ac felly bydd yn osgoi'r gost a'r effeithiau amgylcheddol ar gyfranogwyr. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant wedi'i deilwra ar gael ar gais, ac fel mewn ymarferion blaenorol, darperir gwybodaeth ddefnyddiol drwy gylchlythyrau a negeseuon e-bost rheolaidd a’r rhyngrwyd, yn ogystal â'r canllawiau a ddarperir ar y gwe-offeryn.

# Atodiad 1 - Yr Ymarfer Menter Twyll Genedlaethol

1 Bob blwyddyn, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwario symiau sylweddol o arian i roi help a chymorth i'r rhai yn y gymuned sydd â'r angen mwyaf. Yn 2006/2007, cafodd dros 220,000 o bobl yng Nghymru gymorth i dalu eu rhent drwy daliadau budd-dal tai ac ad-daliadau rhent. Darparodd awdurdodau dros 154,000 o anheddau'r cyngor i'w rhentu, a gwariwyd tua £600 miliwn ar fudd-dal tai yn unig.

2 Er mwyn cael y gwasanaethau neu'r taliadau hyn, rhaid i ddarpar dderbynyddion wneud cais i'w hawdurdod lleol. Pennir cymhwyster ar gyfer budd-daliadau yn y rhan fwyaf o achosion drwy brawf modd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hanelu at y rhai â'r angen mwyaf. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gwneud cais am fudd-daliadau yn onest ac maent yn rhoi data cywir wrth wneud cais am wasanaethau. Fodd bynnag, mae rhai ymgeiswyr yn gwneud datganiadau ffug wrth wneud cais am wasanaethau'r awdurdod lleol neu'n methu â hysbysu'r bobl berthnasol yn fwriadol pan fydd amgylchiadau'n newid, ac, o ganlyniad maent yn hawlio budd-daliadau tai, ad-daliadau rhent a budd-daliadau eraill yn dwyllodrus.

3 Yn 1996, lansiodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Lloegr y Fenter Twyll Genedlaethol. Ei diben oedd helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i baru data ar draws gwahanol systemau data o fewn corff a chyda data a ddaliwyd gan sefydliadau eraill. Bu'r ymarfer yn llwyddiannus ac ers hynny cynhaliwyd y Fenter bob dwy flynedd, gan gyflwyno cyfranogwyr newydd a modiwlau newydd ar gyfer nodi twyll a gordaliadau ym mhob ymarfer newydd. Mae'r Fenter wedi sefydlu'i hun fel yr ymarfer mwyaf yn y DU o ran canfod twyll yn y sector cyhoeddus. Ers 1996, mae'r Fenter wedi canfod dros £11.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a bron £450 miliwn ledled y DU. Cymerodd dros 1,500 o sefydliadau yn y DU ran yn ymarfer diweddaraf y Fenter. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am y Fenter yng Nghymru ers creu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005.

4 Mae cyfranogwyr yn y Fenter yn rhoi data sy'n ymwneud â'u systemau ariannol i'r Comisiwn Archwilio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a'i archwilwyr. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn eang ac mae'n cynnwys data sy'n ymwneud â budd-daliadau tai, derbynyddion benthyciadau myfyrwyr, y gyflogres a thaliadau pensiwn. Caiff y wybodaeth a roddir ei mewnbynnu i gronfa ddata ganolog y Comisiwn Archwilio a gynlluniwyd i baru gwahanol setiau data at ddibenion nodi twyll neu ordaliadau posibl.



5 Caiff nifer o setiau data eu paru â setiau data eraill o fewn awdurdodau a rhwng awdurdodau i amlygu achosion megis:

- cyflogeion y sector cyhoeddus a phensiynwyr yn hawlio budd-dal tai lle nad oes ganddynt hawl i wneud hynny;
- cyflogeion yn absennol oherwydd salwch hirdymor o un cyflogwr tra'n gweithio i gyflogwr arall; ac
- unigolion yn hawlio budd-dal tai a/neu rent tai gan fwy nag un awdurdod.

6 Rhoddir adroddiadau i gyfranogwyr sy'n cynnwys 'parau' y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach. Cofnodir canlyniadau'r ymchwiliadau gan y staff perthnasol. Lle y canfyddir taliad neu ordaliadau twyllodrus, cofnodir gwerth y trafodion hynny a rhoddir y wybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol a'i archwilwyr.